COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR Y CABINET AR GYDRADDOLDEBAU A CHYSYLLTIADAU Â GWEITHWYR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB DDYDD MERCHER, 5 TACHWEDD 2025 AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd M J Evans – Y Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| N Farr | JC Spanswick | HM Williams | E D Winstanley |

Presennol yn Rhithwir

| | | | |
|---|---|---|---|
| A R Berrow | W R Goode | M Jones | M Lewis |
| A Ulberini-Williams | A Wathan | AJ Williams | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Zoe Edwards | Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Paul Miles | Rheolwr Grŵp - Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol – y Gwasanaethau Democrataidd |
| Kirsty Williams | Rheolwr Partneriaeth a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol (CSP) |

**76. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr D Hughes, P Davies, E Caparros a J Gebbie. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 5 Tachwedd 2025 |

**77. Datganiadau o Fuddiannau**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Nid oedd dim datganiadau o fuddiannau |

**This document is available in English / Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

| | |
|---|---|
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 5 Tachwedd 2025 |

**78. Cymeradwyo'r Cofnodion**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 3 Medi 2025 fel cofnod gwir a chywir. <br> . |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 5 Tachwedd 2025 |

**79. Data'r Gweithlu - Chwarter 2**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Adnoddau adroddiad, a'i bwrpas oedd rhoi gwybodaeth i weithlu'r Cyngor, er mwyn bod o gymorth i gynllunio'r gweithlu.<br><br>Rhoddai Atodiad 1 yr adroddiad sefyllfa gyffredinol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 30 Medi 2025.<br><br>Cadarnhaodd hefyd bod yr Arfarniadau a gwblhawyd ar gyfer chwarter 2 wedi cael eu cynnwys yn Atodiad 1, ynghyd â manylion y rhai a gwblhawyd yn y blynyddoedd blaenorol.<br><br>Roedd yr un Atodiad hefyd yn adlewyrchu data absenoldeb salwch. Y diwrnodau a gollwyd fesul gweithiwr llawn amser (FTE) ar gyfer chwarter 2 yn 2025/2026 oedd 5.89 (ar gyfartaledd fesul gweithiwr). Roedd hyn yn is na'r un cyfnod y llynedd pan oedd yn 6.22. Fodd bynnag, arhosodd canran yr absenoldebau sy'n cael eu categoreiddio fel rhai tymor hir ar 81%, ac roedd angen lleihau hynny.<br><br>Roedd yr Arweinydd yn bryderus ynghylch y manylion ar dudalen 15 yr adroddiad, oedd yn adlewyrchu bod yr arfarniadau a gwblhawyd yn Chwarter 2 ar gyfer 2025-26 yn adran Priffyrdd a Mannau Gwyrdd Cyfarwyddiaeth y Cymunedau, yn bryderus o isel. Ychwanegodd ei fod yn gobeithio bod gweithwyr mewn swyddi rheoli, oedd yn cynnal arfarniadau, wedi cael eu hyfforddi'n ddigonol i wneud hynny.<br><br>Cadarnhaodd Rheolwr Grŵp Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol fod pob rheolwr wedi cael ei hyfforddi ar y ffordd i gynnal arfarniadau staff, er y byddai ef yn hyrwyddo hyn ymhellach o fewn yr awdurdod lleol er mwyn i reolwyr fod wedi eu paratoi i'r eithaf cyn cynnal arfarniadau. Ychwanegodd fod rhai problemau staffio a gweithredu wedi bod yn y maes hwn yn y Gyfarwyddiaeth yn ystod cyfnod chwarter 2, er y byddai chwarter 3 yn dangos gwelliant amlwg yn yr ystadegyn hwn. |

| | |
|---|---|
| | Cyfeiriodd aelod at broblem recriwtio a chadw staff yn ogystal â chynllunio olyniaeth yn CBSP ar gyfer y dyfodol. Gofynnodd pa gynlluniau oedd gan y Cyngor yn eu lle i lenwi swyddi staff mwy profiadol pan fyddent hwy'n gadael yr awdurdod, h.y. i fynd i gyflogaeth arall neu'n ymddeol.<br><br>Teimlai aelod hefyd y byddai'n ddefnyddiol yn y dyfodol, pe gallai Pwyllgor y Cabinet gael dadansoddiad o broffil oedran y gweithwyr fesul Cyfarwyddiaeth.<br><br>Cadarnhaodd Aelod y Cabinet dros Adnoddau mai gweithlu'r Cyngor oedd ei ased mwyaf a bod adborth o adroddiad Asesu Perfformiad y Panel a ystyriwyd gan y Cyngor llawn ym mis Hydref 2025, wedi cadarnhau bod CBSP yn mynd drwy gyfnod o drawsnewid ac oherwydd hynny, ei fod yn bwriadu cyflawni cynllunio olyniaeth drwy nifer o fentrau arloesol.<br><br>Roedd yr awdurdod lleol yn mynd i'r afael â'i weithlu ac yn ei gryfhau drwy gynllunio'r gweithlu, gan gynnwys mynd i'r afael â heriau recriwtio mewn meysydd allweddol, a gwella cynllunio olyniaeth, er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i greu strategaeth gweithlu hirdymor, er enghraifft, drwy ei raglen prentisiaethau.<br><br>Gofynnodd aelod a fyddai modd, mewn adroddiadau yn y dyfodol ar y pwnc hwn, cael mwy o fanylion ar nifer yr absenoldebau fesul Cyfarwyddiaeth ac, os yn bosibl, unrhyw gydberthynas a ganfuwyd rhwng achosion o absenoldeb a chanlyniadau arfarniadau.<br><br>Ystyriai'r Arweinydd hefyd y dylai fod ymdrech arbennig i gael staff dan hyfforddiant mewn meysydd o'r Cyngor lle roedd yn anodd recriwtio staff cymwys i gymryd lle'r rhai oedd yn gadael, fel yn adrannau Priffyrdd, Parciau a Pheirianneg Cyfarwyddiaeth y Cymunedau. Teimlai y gallai hyn fod yn bwnc ar gyfer eitem ar yr agenda yn y dyfodol.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod Pwyllgor y Cabinet ar Gydraddoldebau a Chysylltiadau â Gweithwyr yn nodi'r wybodaeth oedd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 5 Tachwedd 2025 |

80. **Adroddiad Blynyddol Cydlyniant Cymunedol**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Adfywio, Datblygu Economaidd a Thai adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi'r wybodaeth flynyddol ddiweddaraf i aelodau ar waith Tîm Cydlyniant Cymunedol Bae'r Gorllewin a |

| | |
|---|---|
| | ariennir gan Lywodraeth Cymru a gwaith cydlyniant cymunedol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>Roedd Crynodeb Gweithredol yr adroddiad yn hysbysu Pwyllgor y Cabinet am y materion allweddol canlynol:-<br><br>• Amlinellai'r Adroddiad Blynyddol y gwaith a wnaed o ran cydlyniant cymunedol rhwng Hydref 2024 a Medi 2025.<br>• Mae cyllid wedi cael ei gadarnhau ar gyfer y Rhaglen Cydlyniant Cymunedol o Fawrth 2026 i Fawrth 2029, gyda'r posibilrwydd o estyniad dros dair blynedd arall.<br>• Mae rôl y Swyddog Cydlyniant ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn wag ers i ddeiliad blaenorol y rôl dderbyn swydd fel Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol.<br>• Mae'r diweddariadau ynghylch cynnydd ar gyfer yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y Cynllun Cyflawni Cydlyniant Cymunedol Cenedlaethol, gan nodi bod y cynllun gwaith wedi newid ers mis Ebrill 2025.<br>• Darparwyd ffigurau Troseddau Casineb gan Heddlu De Cymru ac roedd y rhain wedi eu cynnwys yn Atodiad I i'r adroddiad.<br>• Mae'r Adroddiad Gwerthuso o'r sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth a gynhaliwyd gan Sefydliad y Camau Bach wedi ei gynnwys yn Atodiad ii.<br>• Cafodd adroddiad gwerthuso diwedd prosiect ar gyfer Cronfa Grantiau Bychain Cydlyniant Cymunedol Bae'r Gorllewin (2024-2025) ei gynnwys yn Atodiad iii.<br><br>Sylwodd yr Arweinydd fod yr adroddiad wedi datgelu y cafwyd peth anhawster wrth recriwtio i swydd y Swyddog Cydlyniant Cymunedol pan gafodd ei hysbysebu gyntaf a gofynnodd a gafwyd mwy o lwyddiant pan gafodd y swydd hon ei hail-hysbysebu'n ddiweddar.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Partneriaeth a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, pan gafodd y swydd ei hysbysebu gyntaf, nad oedd cyllid ar gael ar gyfer y swydd ond hyd at Fawrth 2026. Fodd bynnag, roedd hyn wedi cael ei gynyddu ers hynny i Fawrth 2029, oedd wedi arwain at fwy o ddiddordeb yn y swydd ar ôl iddi gael ei hail-hysbysebu am yr eildro.<br><br>Nododd aelod fod achosion o droseddau casineb wedi lleihau ychydig yn ystod y 12 mis diwethaf, er ei fod yn gwybod nad adroddid am lawer o achosion o'r math hwn o drosedd, a fyddai'n effeithio ar y ffigurau hyn. Gofynnodd felly, pa waith oedd yn cael ei wneud i ymgysylltu â'r cyhoedd, ynghylch ffyrdd y gallai unigolion geisio cael cymorth pe baent yn destun digwyddiadau o'r fath.<br><br>Cadarnhaodd y Rheolwr Partneriaeth a'r CSP fod gwaith cymorth i ddioddefwyr yn y rhan hon o gymdeithas wedi cynyddu, lle roedd CBSP yn rhoi mwy o sylw nag y bu o'r blaen efallai, gan gynnwys |

| | |
|---|---|
| | trwy gyfrwng adrodd ar gyfryngau cymdeithasol. Talwyd sylw nid yn unig i droseddau casineb fel y cyfryw, ond i ddigwyddiadau oedd yn dod ychydig o dan y trothwy hwn.<br><br>Roedd gweithio ar y cyd â rhanddeiliaid wedi bod o gymorth i wella hyn, gydag enghraifft o hynny'n cynnwys ymgysylltu rheolaidd drwy'r Uned Gorchymyn Sylfaenol (BCU), corff rhanbarthol sy'n cynnwys nifer o awdurdodau lleol Cymru a phartneriaid allweddol eraill.<br><br>Roedd Cytundeb Cydweithredu Cydlyniant Cymunedol hefyd yn ei le oedd yn cael ei gefnogi gan Grŵp Llywio, er mwyn darparu cysylltiadau a deall yn well beth mae rhai pobl yn ei brofi o ran problemau o'r math hwn.<br><br>Ychwanegodd yr Arweinydd fod gan y Cynghorwyr ran allweddol i'w chwarae hefyd, yn ogystal â phartneriaid fel yr Heddlu, gan y gallent fod yn gyswllt rhwng cwynion gan drigolion cymuned ynghylch problemau fel troseddau casineb ac adrodd am y rhain wrth bartneriaid fel yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a Chymdeithasau Tai fel V2C, fel y gellid cymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r digwyddiadau hyn.<br><br>Ychwanegodd y gallai trigolion hefyd adrodd am unrhyw broblemau o'r fath wrth eu SCCH.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor ar Gydraddoldebau a Chysylltiadau â Gweithwyr wedi nodi cynnwys yr adroddiad diweddaru. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 5 Tachwedd 2025 |

## 81. Eitemau brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Nid oedd dim eitemau brys |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 5 Tachwedd 2025 |

Daeth y cyfarfod i ben am 12:00 hanner dydd

Er mwyn gwylio ychwaneg o'r drafodaeth a gafwyd yn y cyfarfod, cliciwch ar y ddolen os gwelwch yn dda.

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**